Guto ar goll

Cysyniadau: **Gofal, cyfeillgarwch.**

Amcan: **Pwysigrwydd parchu a gofalu am anifeiliaid.**

Cyfarpar: **Anifail anwes (tegan neu greadur byw).**

Cyflwyniad:
Mi ydw i wedi dod ag anifail anwes (neu degan) efo mi heddiw. Cyfle i drafod yr anifail. Gan faint ohonoch chi y mae anifail anwes? Bydd y plant wrth eu bodd yn cyfeirio at eu hanifeiliaid.

Stori:

Dyma stori heddiw am Guto'r ci. Os gwn i beth ddigwyddodd iddo?

Bob bore am saith byddai Guto'n cyfarth wrth y drws yn barod i fynd am dro gyda'i feistr. A bob nos am wyth o'r gloch byddai Guto'n cyfarth. Doedd dim angen cloc yn y tŷ. Yn y gaeaf, pan fyddai'n oer a thywyll byddai Cen, perchennog Guto, yn ei chael hi'n anodd i fynd allan o'r tŷ ond pan ddeuai'r gwanwyn a'r haf byddai Cen wrth ei fodd yn crwydro'r llechweddau yng nghwmni Guto, y teriar du a gwyn.

Un gyda'r nos a hithau'n dywyll, dim lleuad na sêr i'w gweld yn unman, penderfynodd Cen fynd am dro yn ôl ei arfer. Ar ôl gadael y stryd fawr byddai Cen yn gollwng Guto yn rhydd oddi ar y tennyn a byddai'n rhedeg a rasio o gwmpas y coed. Byddai'n siŵr o ddod yn ôl pan fyddai Cen yn galw, 'Guto, tyrd yma rŵan!' Ond y noson honno ddaeth o ddim yn ôl. Dim siw na miw ohono'n unman. Yn y pellter gwelodd Cen rywbeth gwyn yn symud. Rhedodd nerth ei draed a dyna lle roedd Guto yn tyrchu â'i draed blaen. Mae'n rhaid bod cwningen neu ryw greadur arall yn y twll. Ymhen ychydig funudau roedd Guto wedi tyrchu agoriad oedd yn ddigon mawr iddo fynd i

mewn i berfeddion y twll.

Arhosodd Cen i weld beth fyddai'n digwydd. Er iddo weiddi a gweiddi nerth esgyrn ei ben doedd dim golwg o Guto. Aeth adref nerth ei draed a daeth yn ôl efo'i dad a'i frawd mawr a phob un efo rhaw a chaib. Dyna lle roedden nhw'n tyrchu yng ngolau lanterni. Ond doedd dim golwg o Guto.

'Mi fydd rhaid i ni gael help yn y bore,' meddai tad Cen. Yn anfoddog iawn y cerddodd y tri o'r llecyn y noson honno.

Am naw o'r gloch y bore roedd Cen a'i dad a'i frawd yno'n ceibio. Roedden nhw wedi galw am help gan yr RSPCA. Mewn dim o dro roedd tri swyddog wedi cyrraedd. Roedd ganddyn nhw offer pwrpasol i weld i berfeddion y twll ac yno'n swatio yn y pellter roedd Guto. A dyna lle roedd o'n ysgwyd ei gynffon

Dyma ailddechrau tyrchu o gwmpas medr a mwy o geg y twll. Er i Cen weiddi arno doedd Guto ddim yn gallu symud.

'Mae'n rhaid i ni ddal i dyrchu,' meddai un o'r swyddogion. Am bron i awr gyfan bu'r tri yn ymlafnio'n galed. O'r diwedd, a hithau'n nesu at amser cinio, dyma gael gafael ar Guto a'i godi'n ara deg o grombil y twll. Roedd o wedi mynd yn sownd ac yn methu troi ei gorff i ddod allan. Pan ddaeth allan roedd ei got yn frown ac roedd o'n crynu.

Pan ofynnodd Cen iddo, 'Be oeddet ti'n wneud lawr yn fan 'na?' dechreuodd Guto ysgwyd ei gynffon o ddifri.

Trafodaeth bellach:

● Fyddech chi'n dweud bod Cen a Guto yn ffrindiau? Sut gwyddoch chi?

● Tybed oedd Cen yn gwneud peth ffôl yn mynd am dro wedi iddi dywyllu?

● Beth oedd cyfraniad yr RSPCA, Y Gymdeithas Frenhinol er atal Creulondeb i Anifeiliaid?

● Disgrifiwch sut oedd Cen yn teimlo pan ddaeth Guto allan o'r twll.

A beth am Guto. Sut oedd o'n teimlo?

Munud i feddwl:
Byddwch yn ffrind da i'ch anifail anwes ac fe fydd yntau'n ffrind da i chi.

Emyn: Llyffaint sy'n dod: Canu Clod 254

Dyfyniad o'r Beibl:
Mae pobl dda yn gofalu am eu hanifeiliaid.

Diarhebion 12:10 beibl.net

Myfyrdod/Gweddi:
Helpa fi, O Dduw, i barchu a gofalu am bob math o anifeiliaid, hyd yn oed y rhai nad wyf yn eu hoffi. Amen.